Canllawiau a chyngor i rieni a gwarchodwyr.

Guidelines and advice for parents and carers.

Cymraeg	**English**
Arhoswch adref a pheidiwch ag anfon eich plentyn/plant i'r ysgol os ydyn nhw neu rywun yn eich cartref yn dioddef o symptomau Coronafeirws neu os ydynt wedi profi'n bositif. Fe ddylai unrhyw un sydd â symptomau ffonio 119 neu drefnu prawf ar-lein ar unwaith. https://llyw.cymru/coronafeirws Byddwch yn gyfrifol a helpwch i sicrhau ein bod ni'n lleihau'r risg o unrhyw drosglwyddiad posibl o'r feirws.	Please stay at home and do not send your child(ren) to school if they, you or someone in your household has Coronavirus symptoms or has tested positive for Coronavirus. Anyone with symptoms should call 119 or book a test online immediately. https://gov.wales/coronavirus Be responsible and help ensure we reduce the risk of any possible transmission.
Dangoswch esiampl i'ch plant. **Cadwch bellter cymdeithasol oddi wrth eraill wrth eu danfon i'r ysgol a'u casglu i fynd adref.** **Does dim angen dod i'r ysgol ddegau o funudau cyn yr amser casglu ar ddiwedd y dydd i gael sgwrs efo rhieni eraill wrth giat yr ysgol; mae hyn yn gallu arwain at ddiffyg cadw at bellter cymdeithasol.** **Cofiwch gadw at y canllawiau cadw pellter cymdeithasol. Cadwch bellter o ddau fetr oddi wrth y rhai hynny nad ydynt yn eich cartref estynedig.** Cewch ragor o wybodaeth yma: https://llyw.cymru/coronafeirws	**Please act as a role model for your children.** **Stay socially distanced from others when dropping them off and picking them up from school.** **There's no need to arrive at the school tens of minutes early at the end of the day to have a chat with other parents. This can lead to a lack of social distancing.** **Please remember to keep to the social distancing guidance. Stay two metres apart from those who are not in your extended household.** Find more information here: https://gov.wales/coronavirus
Cofiwch atgoffa eich plant i olchi eu dwylo yn rheolaidd. Mae hyn yn bwysig pan fyddant yn cyrraedd yr ysgol, cyn y byddant yn gadael ar ddiwedd y dydd a phan fyddant yn cyrraedd adref. Byddwn yn atgyfnerthu'r neges hon gyda'ch plant yn rheolaidd. Cewch ragor o wybodaeth yma: https://llyw.cymru/coronafeirws	Please remind your children to wash their hands regularly. This is especially important when they arrive at school, before leaving at the end of the day and when they get home. We will be reinforcing this message with your children on a regular basis. Find more information here: https://gov.wales/coronavirus

Rhowch wybod i ysgol eich plentyn ar unwaith os bydd eich plentyn yn profi'n bositif, hyd yn oed os yw hynny dros y penwythnos. Bydd hyn yn helpu staff yr ysgol i allu gwneud cynlluniau ar gyfer y disgyblion hynny a fydd angen hunanynysu. Cewch ragor o wybodaeth yma: https://llyw.cymru/coronafeirws	Please inform your child's school immediately if you get a positive test result, even at weekends. This will help school staff make plans for pupils who will need to self-isolate. Find more information here: https://gov.wales/coronavirus
Os bydd eich plentyn yn cael ei anfon adref i hunanynysu - mae hyn hefyd yn golygu nad oes modd iddynt fynychu gweithgareddau eraill, digwyddiadau nac achlysuron arbennig. Cewch ragor o wybodaeth yma: https://llyw.cymru/coronafeirws	If your child is sent home from school to self-isolate - this also means they cannot attend any other activities, events, or special occasions. Find more information here: https://gov.wales/coronavirus
Efallai y bydd angen i chi ddod i nôl eich plentyn o'r ysgol ar fyr rybudd os bydd angen iddynt hunanynysu. Gallwn gysylltu â chi unrhyw dro yn ystod y diwrnod ysgol felly byddwch yn barod a gwnewch yn siŵr bod rhywun ar gael i ofalu amdanynt yn ddiogel. Cewch ragor o wybodaeth yma: https://llyw.cymru/coronafeirws	You may be required to collect your child from school at short notice, if they have to self-isolate. We could contact you at time during the school day, so please be prepared and ensure they can be cared for safely. Find more information here: https://gov.wales/coronavirus
Helpwch i leihau'r risg posibl o ledaenu'r Coronafeirws drwy annog eich plant i ddilyn y canllawiau cadw pellter cymdeithasol ac i ymddwyn yn gyfrifol y tu allan i oriau'r ysgol. Cewch ragor o wybodaeth yma: https://llyw.cymru/coronafeirws	Help reduce the risk of possible Coronavirus transmission by encouraging your children to follow social distancing guidance and behave responsibly when outside of school. Find more information here: https://gov.wales/coronavirus